James Ussher 1581–1656

Ysgolhaig ac Archesgob yn Eglwys Anglicanaidd Iwerddon

Ganwyd James Ussher yn Nicholas Street, Dulyn, ar 4 Ionawr 1581. Hanai ei rieni o deuluoedd blaenllaw Eingl-Wyddelig a magwyd ef mewn cartref Protestannaidd ffyniannus. Dysgodd ddarllen yn ifanc gyda chymorth dwy fodryb ac yna fe aeth i Ysgol Rydd Dulyn oedd gerllaw eu cartref. Pan agorwyd coleg newydd y Drindod, Dulyn, ym 1594, ef oedd un o'r myfyrwyr cyntaf. Effeithiodd y cyfnod hwn yn drwm iawn arno wrth iddo ddod dan ddylanwad y Diwygiad Protestannaidd.

Ym 1598 enillodd radd BA, ac MA ym 1601. Penderfynodd fynd i'r weinidogaeth ac fe'i hordeiniwyd yn offeiriad. Enillodd radd BD ym 1607 a DD ym 1612. Fe'i gwnaed yn gymrawd yn y coleg ac yno y bu yn pregethu a darlithio.

Yn ystod ei gyfnod cynnar roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn diwinyddiaeth wrth-babyddol. Cyhoeddodd ei lyfr cyntaf sef *Gravissimae quaestionis, de Christianarum ecclesiarum* a amlygai ei ysgolheictod a'i ddawn i ganfod llawer o ffynonellau gwreiddiol. Ymosodai hefyd yn chwyrn ar y Pabyddion gan honni mai hwy oedd yr Anghrist. Ef hefyd oedd un o'r rhai a fu'n gyfrifol am lunio cyffes ffydd gyntaf yr Eglwys yn Iwerddon ym 1615. Yn y blynyddoedd dilynol daeth yn enw cyfarwydd trwy wledydd Prydain yn enwedig ar ôl iddo gyfarfod Iago I a chael ei benodi yn Esgob Meath a phregethu ger bron y ddau Dŷ yn Llundain ym 1621. Ymddiddorai yn hanes yr eglwys yn Iwerddon a chyhoeddodd *A Discourse of the Religion Anciently Professed by the Irish and British* (1622). Yn y gwaith hwn deuai i'r casgliad mai eglwys Brotestannaidd oedd yr Eglwys Geltaidd ac felly ei bod yn gwbl briodol fod yr eglwys Anglicanaidd yn berchen ar yr eglwysi yn Iwerddon. Yn dilyn marwolaeth Archesgob Hampton etholwyd Ussher i'r Archesgobaeth ac fe'i hordeiniwyd i'r gwaith ym 1626. Gwrthwynebai yn chwyrn unrhyw symudiad tuag at ddeddfau goddefiad i'r Pabyddion gan ddweud ei bod yn grefydd ofergoelus a gau. Am gyfnod bu'n ymwneud â gwleidyddiaeth eglwysig. Ceisiodd Thomas Wentworth,

William Laud a John Bramhall ddisodli Cyffes Ffydd 1615 gyda 39 erthygl Eglwys Loegr. Gwrthwynebai Ussher hyn gan ddweud bod angen cadw hunaniaeth yr eglwys yn Iwerddon. Wedi dadl fawr penderfynwyd derbyn y ddau ochr yn ochr â'i gilydd.

Yn dilyn hyn enciliodd Ussher er mwyn canolbwyntio ar waith academaidd. Cyhoeddodd hanes Gotteschalc o Orbais, mynach o'r nawfed ganrif (1631). Ymddengys ei fod trwy'r gyfrol hon wedi pwysleisio athrawiaethau Awstin Sant a hynny ar draul Arminiaeth oedd yn codi ei ben yn Iwerddon. Trodd ei sylw wedyn at hanes Iwerddon gyda'r *Veterum epistolarum Hibernicarum sylloge*, cyfrol arloesol a edrychai'n fanwl ar lythyrau a thestunau Gwyddelig o'r canol oesoedd (1632). Un o'i weithiau pwysicaf oedd y *Britannicarum ecclesiarum antiquitates* (1639) a geisiai adrodd hanes Cristnogaeth ym Mhrydain o'r dechreuad hyd y seithfed ganrif.

Newidiodd cyfeiriad ei fywyd eto ym 1640 pan alwodd y Brenin Siarl y Senedd. Pregethodd Ussher ar agoriad y senedd yn Iwerddon (1640) a'r mis dilynol symudodd i fyw i Lundain lle yr ailgydiodd yn ei waith academaidd. Wrth i'r sefyllfa wleidyddol ddwysáu fe ochrodd gyda'r brenin a symudodd ef a'i deulu, am gyfnod byr, i gastell Sain Dunwyd (St Donats), Bro Morgannwg, er diogelwch. Ym 1654 fe ysgrifennodd ei lyfr enwocaf sef yr *Annalium Pars Posterior*. Ynddo fe weithiodd allan yn fathemategol trwy astudio'r Beibl beth oedd – yn ei dyb ef – dyddiad y creu sef 4004 cyn geni Crist. Bu farw ar 21 Mawrth 1656 a chladdwyd ef yng Nghapel Sant Erasmus, Abaty Westminster, Llundain.